

Atodiad 2: Gwybodaeth Ysgolion

1. Toriadau Diogelu Data mewn ysgolion

- 1.1 Cofnodwyd cyfanswm o 9 achos o dorri rheolau diogelu data yn y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 - rhoddwyd gwybod am 1 achos seiber i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu.
- 1.2 Roedd yr achosion o dorri rheolau diogelu data'n cynnwys anfon gwybodaeth am ddisgyblion dros e-bost at y rhiant neu'r grŵp o rieni anghywir, anfon negeseuon e-bost yn datgelu cyfeiriadau e-bost personol rhieni i'r holl dderbynwyr (drwy beidio â defnyddio bcc), anfon gwybodaeth drwy'r post at y cyfeiriadau anghywir gan nad oedd y systemau wedi cael eu diweddarau'n briodol ac 1 achos o ddatgelu gwybodaeth bersonol mewn modd amhriodol dros y ffôn.

2. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data i Ysgolion

- 2.1 Dim ond un cais rhyddid gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod, a dderbyniwyd gan nifer o ysgolion.
- 2.2 Gwnaed cyfanswm o 27 Cais gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain (ceisiadau am wybodaeth bersonol) i ysgolion